



# Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

**Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 4 Ebrill 2017 am 6.00yh yn Ystafell y Tŵr, Castell Aberteifi.**

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 4 April 2017 at 6.00pm at the Tower Room, Cardigan Castle.

**Presennol/Present—Y Cyngorwyr/Councillors Clive Davies (yn y gadair/in the chair),** John Adams-Lewis, Dai Brabrook, Mark Cole, Ken Edwards, Graham Evans, Melfydd George, Gwynfi Jenkins, Richard Jones, Catrin Miles, Jane Roche.

**1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.**  
The Chair's Welcome and Personal Matters.

**Croesawodd y Maer, y Cyng. Clive Davies, bawb i'r cyfarfod cyntaf a gynhaliwyd yng Nghastell Aberteifi ers cyn cof. Gan fod cyfnod y cyngor presennol yn dod i ben, oherwydd yr etholiadau lleol sydd i'w cynnal ar 4 Mai, cytunwyd tynnu llun y cyngor presennol ar lawnt y Castell cyn y cyfarfod. Croesawodd y Maer hefyd ohebydd newydd y "Tivy-Side", Mr David Parkinson, i'w gyfarfod cyntaf. Diolchodd y Maer i'r Cyng. Jane Roche am lwyddiant noson Cyflwyniad i'r leuencid yr ardal a gynhaliwyd yn ddiweddar, a hefyd i Siop Hamdden Aberteifi am noddi'r digwyddiad. Yn yr un modd, diolchwyd i aelodau am eu cymorth a'u cyfraniadau tuag at lwyddiant y bore coffi at Gronfa'r Maer ar 1 Ebrill – sylweddolwyd elw o £376.50 yn cynnwys cyfraniad o £25 oddi wrth Mr Delwyn Griffiths.**

The Mayor, Cllr Clive Davies, welcomed all to the first meeting held in Cardigan Castle in living memory. As the term of the present council ends with the forthcoming local council elections on 4 May, it was deemed appropriate to photograph the council on the Castle lawn prior to the meeting taking place. Mr David Parkinson, the newly-appointed "Tivy-Side" reporter, was also welcomed to his first meeting. The Mayor thanked Cllr Jane Roche for hosting and organising the successful Youth Presentation evening at the Fisherman's Rest recently, and to Siop Hamdden Aberteifi for their sponsorship. The Mayor also thanked members for their assistance and donations at the coffee morning towards the Mayor's Fund held on 1 April – proceeds of £376.50 were raised including a donation of £25 from Mr Delwyn Griffiths.

**2. Ymddiheuriadau / Apologies: Y Cyng. / Cllrs Neal Jones, Akira Shimazaki.**

**3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Phersonol gan Gyngorwyr.**  
Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis	<i>Yr holl faterion cynllunio / All planning matters.</i> Grantiau / Grants: eitem/item 11 [12, 20]
Y Cyng. / Cllr Mark Cole	Grantiau / Grants: eitem/item 11 [19, 22]
Y Cyng. / Cllr Clive Davies	Grantiau / Grants: eitem/item 11 [22]
Y Cyng. / Cllr Graham Evans	Grantiau / Grants: eitem/item 11 [12, 19]
Y Cyng. / Cllr Catrin Miles	Grantiau / Grants: eitem/item 11 [12, 17, 21]
Y Cyng. / Cllr Jane Roche	Grantiau / Grants: eitem/item 11 [1] & 8 (Bills to be paid)

**4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 7 Mawrth.**  
Confirmation of Minutes of 7 March Council Meeting.

**Tud./Page 1223:** The "Deputy Mayor" closed the meeting.

**Gyda'r cywriad uchod cynigiwyd gan y Cyng. Mark Cole ac eiliwyd gan y Cyng. Gwynfi Jenkins bod y cofnodion yn gywir.**

With the above amendment, Cllr Mark Cole proposed that the minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr. Gwynfi Jenkins.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.**

**Tud. 1217, eitem 7 (Cynllunio):** Bydd ceisiadau cynllunio "The Elms" (A170123/25/26) yn cael eu trafod yn hwyrach yn y gwanwyn gan Bwyllgor Rheoli Datblygu'r cyngor sir. Nid oedd angen Hawl Cadwraeth Ardal ar yr ymgeisydd, felly dim ond A170124 gafodd bwerau dirprwyol (gan mai camgymeriad oedd y cais hwn).

**Tud. 1218, eitem 9(b)(i):** Ni thrafodwyd gwerthiant safle Canolfan Meugan, Rhos-y-dre yng nghyfarfod Cyngor Sir Ceredigion ar 14 Mawrth.

**Tud. 1221, eitem 12 (Blodau a Phlanhigion):** Bydd angen gofyn i Mr Jon Hadlow am gynlluniau'r cyngor sir ynghylch cyfrifoldeb am dorri porfa Gerddi Victoria.

**Tud. 1221, eitem 12 (Unrhyw Fater Arall):** Cadarnhawyd y bydd y Ddraig Goch yn cyhwfan uwchben y Castell cyn bo hir.

**Tud. 1222, eitem 12 (Pwll Nofio Aberteifi):** Dywedodd y Cyng. Miles bod y sefyllfa ynglŷn â'r staff wedi newid yn ddiweddar a bod systemau newydd wedi eu ffurfio ynglŷn â gwella cynllun gweinyddu'r busnes. Mae nifer yr aelodaeth wedi cynyddu o 20 i 178 mewn byr amser. Disgwylir i'r paneli haul gael eu gosod yn fuan; disgwylir iddynt arbed yn sylweddol ar gost ynni.

Page 1217, item 7 (Planning): The applications (A17023/25/26) for "The Elms" will be discussed by the county council Development Control Committee later in the spring. Application A170124 did not require Conservation Area Consent and, therefore, received delegated powers

Page 1218, item 9(b)(i): The prospective sale of the Canolfan Meugan site at Rhos-y-dre was not discussed at the Ceredigion County Council 14 March meeting.

Page 1222, item 12 (Flowers and Plants): Mr Jon Hadlow of the county council needs to clarify the position regarding the mowing of the Victoria Gardens grass.

Page 1222, item 12 (Any Other Business): It was confirmed that the Welsh Dragon flag would soon be displayed at the Castle.

Page 1222, item 12 (Cardigan Swimming Pool): Cllr Miles stated that new administrative systems were now in place following changes to the staffing structure. The number of members has increased from 20 to 178 within a short period of time. It is expected that the new solar panels will be in situ presently and will greatly assist with energy costs.

**6. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.**

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

**Dosbarthwyd dyddiadur y Maer i'r holl aelodau yn y cyfarfod.**

The Mayor's diary was distributed to all members at the meeting.

**7. Cynllunio / Planning:**

Rhif y Cais / Application No.	Cyfeiriad / Address	Y Bwriad / Proposal	Sylwadau / Observations
A170225	Crud yr Awel, Greenland Meadows	Codi estyniad llawr cyntaf ar y drychiad ochr. Erection of first floor extension to side elevation.	Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais. The council supports the application.

**8. (a) Biliau i'w talu / Bills to be paid.**

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhif y Siec Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
15/3/17	Siop Hamdden Teifi: Talebau i Gyflwyniad yr Ieuenctid / Vouchers for Youth Presentation	C9	4371	£65.00 (0.00)
14/3/17	Y Cyng. / Cllr Clive Davies: Baner "Fiver Fest"	C2	4372	£75.00 (0.00)
16/3/17	The Fisherman's Rest: Lluniaeth i noson Cyflwyniad yr Ieuenctid. Refreshments for Youth Presentation evening.	C9	4373	£100.00 (0.00)
30/3/17	Tai Aberteifi Ltd.: Rhent Swyddfa'r Cyngor/ Rent of Council Office (Mawrth / March). Rhent yr Ystafell Gynhadledd/Rent of Conference Room (7, 21 Mawrth / March) Band Lydan (Ebrill) / Broadband (April)	A9 A9 A20	D/D 4374 4374	£250.00 (0.00) £50.00 (0.00) £20.00 (0.00)
31/3/17	L. W. Jones: Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Mawrth/March)	A3	4375	£748.90 (0.00)

17/3/17	Llinos Jones: <i>Cyfieithu ar y pryd</i> . Simultaneous translation (7/3/17)	A18	4376	£70.80 (0.00)
16/3/17	BT: <i>Ffôn</i> / Telephone	A20	4377	£84.18 (14.03)
31/3/17	<i>Bachan Deche</i> / Handyperson: ( <i>Mawrth / March</i> )	A19	4378	£270.60 (45.10)
4/4/17	HMRC: PAYE £561.60, Class 1 NIC £107.67 ( <i>Ionawr, Chwefror, Mawrth</i> – Jan., Feb., March 2017)	A16	4379	£669.27 (0.00)

**Cynigiodd y Cyng. Richard Jones bod y biliau uchod yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Dai Brabrook.**

Cllr Richard Jones proposed that the above bills be paid; this was seconded by Cllr Dai Brabrook.

**Derbyniadau/Receipts:**

9/2/17	<i>Llog y Banc</i> / Bank interest	£1.72
9/3/17	<i>Llog y Banc</i> / Bank interest	£1.28
10/3/17	<i>Y Cyng.</i> / Cllr Clive Davies: <i>Cardiau Nadolig y Maer</i> Mayor's personal Christmas cards	£84.00

**(b) Adroddiad Ariannol 2016-17 / Financial Report 2016-17**

Cyflwynodd y clerc adroddiad ariannol y cyngor hyd at 31 Mawrth 2017. Cyflwynwyd hefyd y cysoniad o fantolen ariannol y cyngor am y flwyddyn ariannol 2016-17.

**The clerk presented the year end financial report (31 March 2017) to the council and also the bank reconciliation for the 2016-17 financial year.**

**Cynigiodd y Cyng. John Adams-Lewis bod y cyngor yn cymeradwyo'r adroddiad ariannol; eiliwyd gan y Cyng. Graham Evans.**

Cllr John Adams-Lewis proposed that the council approves the financial report; this was seconded by Cllr Graham Evans.

**Diolchodd y Maer i'r clerc am gysoni'r cyfrifon mewn byr amser ac am ei waith yn gofalu am gyfrifon y cyngor drwy'r flwyddyn.**

The Mayor thanked the clerk for reconciling the financial accounts in good time and for his care of the council's finances throughout the year.

**9. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.**

**(a) Y Cyng. Catrin Miles:**

- (i) **Cyfarfod PACT: Dywedodd y Rhingyll Delme Jones bod cyllideb ar gael i osod camerau symudol mewn mannau trafferthus; bydd angen arwyddion arbennig i ddynodi hynny. Bydd rhagor o wybodaeth ar wefan "Go Safe – Safe Routes" Heddlu Dyfed-Powys. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 7 Mehefin am 7.00yh.**
- (ii) **Mae'r gwaith ar y palmant ger y Castell yn creu problemau gan fod y goleuadau ar y stryd yno'n ddiffygiol. Gan y disgwylir Uchel Siryf Dyfed i ymweld â'r Castell ar 12 Ebrill ac ni ddisgwylir i'r gwaith orffen hyd 24 Ebrill, mae'r broblem yn creu anawsterau ychwanegol i drefnwyr y digwyddiad.**

**(b) Y Cyng. Mark Cole:**

- (i) **Tai Rhos-y-dre: Dywedodd y Cyng. Cole bod teulu o'r diwedd wedi symud i mewn i un o'r tai adeiladwyd dros y geuffos.**
- (ii) **Datgelodd y Cyng. Cole ei fod yn ymddiswyddo o Gyngor Sir Ceredigion a Chyngor Tref Aberteifi yn dilyn cyfnod o dair blynedd ar ddeg yn gwasanaethu trigolion Ward Rhyd-y-fuwch. Teimlodd gryn falchder gan ei fod wedi gwasanaethu fel Cadeirydd a Maer y ddau gyngor yn eu tro. Dymunodd y gorau i holl gynghorwyr y cyngor i'r dyfodol. Diolchwyd iddo ef am ei wasanaeth gan y Cyng. John Adams-Lewis a dymunodd lwyddiant i'w fusnes yn Eglwyswrw; derbyniodd y Cyng. Cole gymeradwyaeth yr holl gyngor.**

**(a) Cllr Catrin Miles:**

- (i) **PACT meeting: Cllr Miles stated that Sgt Delme Jones announced that his budget included providing trail cameras to be located at various flash-points in the area; appropriate signage will be required. Additional information is available on the Dyfed-Powys Police website "Go Safe – Safe Routes". The next meeting will be held on 7 June at 7.00pm.**

- (ii) Since work began on re-surfacing the pavements below Cardigan Castle, all street lights along the stretch are out of action. It is not known whether they have been disconnected or was it accidental. It is assumed that light issues need to be rectified before the pavements are re-surfaced. The High Sheriff of Dyfed is expected to visit the Castle on 12 April; the work is not expected to be completed before 24 April – this will cause problems to expected guests at the Castle entrance.

**(b) Cllr Mark Cole:**

- (i) Rhos-y-dre dwellings: A family has, after many years' delay, finally moved into one of the houses built over the Rhos-y-dre culvert.
- (ii) Cllr Cole announced that he has decided to retire as councillor from Ceredigion County Council and Cardigan Town Council after thirteen years' service. He was proud to have served both authorities as Chairman and Mayor respectively. He wished Cardigan Town Council success for the future. Cllr John Adams-Lewis thanked Cllr Cole for his service to both councils, wished him well in his business at Eglwysrwrw, and led the members with a spontaneous applause.

**10. Gohebiaeth / Correspondence.**

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
1	CSC / CCC (Gari Jones): Integrated Network Map Consultation: <i>Gwerthfawrogiad o argymhellion y cyngor.</i> Appreciation of the council's suggestions for improvements to the pavement and road network in Cardigan.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
2	CSC / CCC (Bronwen Morgan): <i>Etholiadau Lleol 4/5/17: Posteri a Phecynnau Enwebu.</i> <i>Local Elections 4/5/17: Posters and Nomination Packs.</i>	<i>Mae'r posteri wedi eu harddangos mewn mannau cyhoeddus yn y dref.</i> Posters have been displayed in various public locations.
3	CSC / CCC (Stephen Johnson): <i>Cadarnhad y gellid trosglwyddo £940 o grant Lle Chwarae Pentop i 2017-18.</i> Confirmation that £940 of the Pentop Play Area grant may be transferred to 2017-18.	<i>Nodwyd. Noted.</i> <i>Awgrymodd y Cyng. Miles y dylid trefnu cyfarfod safle.</i> Cllr Miles suggested that a site meeting be held as a point of interest.
4	CSC / CCC (Marianne De Vries): <i>Cau'r ffordd / Road closure: Stryd y Santes Fair Uchaf / Upper St Mary Street – 20/3/17 – 31/3/17. Adnewyddu gwlis / Gully replacement.</i>	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 9/3/17.
5	CSC / CCC (Marianne De Vries): <i>Cau'r ffordd / Road closure: Pwllhai – 20/3/17 – 24/3/17. Adnewyddu pibell draen yn y ffordd / Replacing road drain pipe.</i>	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 22/3/17.
6	CSC / CCC (Enfys James): <i>Gweithdy Gweithredu Cymunedol ar Dlodi Tanwydd. Community Action on Fuel Poverty Workshop, 17/3/17, Penmorfa, 9.30am-12.30pm.</i>	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 18/3/17.
7	CSC / CCC (Bronwen Morgan): <i>Cofrestr o Etholwyr 2016-17.</i> 2016-17 Register of Electors.	<i>Mae'r rhestr tan ofal y clerc. Gweler Adrannau 103-108 Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2002 ynghylch defnyddio'r Gofrestr.</i> The list is filed in the clerk's office. Please refer to Sections 103-108 of the Representation of the People Regulations 2002 with regards to the use of the Register.
8	CSC / CCC (Elin Prysor): <i>Côd Ymddygiad yr Aelodau – Hyfforddiant – Canllawiau'r Ombwdsman. Cyfarfod Briffio gyda Chadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau.</i> Code of Conduct for Members – Training – Ombudsman Guidance. Briefing Meeting with Chairman of Ethics and Standards Committee. Penmorfa, 15/5/17, 6.30-8.00pm.	<i>Cytunwyd hysbysu'r cyngorwyr i gyd o'r digwyddiad yn dilyn etholiadau 4 Mai.</i> It was agreed to inform all councillors of the event following the May 4 elections.
9	CSC / CCC (Paul Arnold): <i>Trefniadau ar gyfer y casgliadau gwastraff dros gyfnod y Pasg.</i> Waste collection details for the Easter period.	<i>Manylion ar gael / Details available on www.ceredigion.gov.uk</i>
10	<i>Cyngor Cymuned Llangoedmor Community Council: Gwybodaeth am fandaleiddio diffibrilwyr Llandudoch a Llangoedmor.</i> Information regarding the vandalising of defibrillators in St Dogmaels and Llangoedmor.	<i>Gofynnwyd i'r clerc ddiolch i glerc Cyngor Cymuned Llangoedmor am yr wybodaeth.</i> The clerk was asked to thank the clerk for the above council for the information.

11	<i>Llywodraeth Cymru: Canllaw'r Cynghorydd Da ar gyfer Cynghorwyr Cymuned a Thref.</i> Welsh Government: The Good Councillor's Guide for Community and Town Councillors.	<i>Mae copi ar gael yn swyddfa'r clerc.</i> Copy available in the clerk's office.
12	<i>Castell Aberteifi: Cais am fenthylg asedau gwerthfawr y cyngor i'w harddangos yn y Castell o Ebrill 28.</i> Cardigan Castle: Application for the loan of council's valuable assets to be displayed at the Castle from 28 April.	<i>Gan fod y canllawiau wedi eu trefnu, cynigiodd y Cyng. Mark Cole bod y cyngor yn caniatáu i asedau gwerthfawr y cyngor gael eu harddangos yn y Castell; eiliwyd gan y Cyng. Gwynfi Jenkins.</i> As the council's directives have been agreed, Cllr Mark Cole proposed that the council's valuable assets be displayed at the Castle; Cllr Gwynfi Jenkins seconded the proposal.
13	Mark Williams AS/MP: <i>Poster yn cynnwys dyddiadau ei gymorthfeydd. Posters of surgery dates</i>	<i>Mae'r poster wedi ei arddangos ar yr hysbysfwrdd.</i> Poster has been displayed in the notice board.
14	<i>Y Cerddwyr Ramblers Cymru: Taith Gerdded Fawr Cymru, "Her y Gwyll 2017", Pontarfynach, 6/5/17.</i> Ramblers Cymru: Big Welsh Walk, "Hinterland Challenge 2017", Devil's Bridge, 6/5/17	<i>Mae'r poster wedi ei arddangos ar yr hysbysfwrdd.</i> Poster has been displayed in the notice board. I gofrestru / To register: <a href="http://www.ramblers.org.uk/bigwelshwalk">www.ramblers.org.uk/bigwelshwalk</a>
15	<i>Castell Aberteifi: Cais am lythyr o gefnogaeth.</i> Cardigan Castle: Application for a letter of support for a special themed Eisteddfod Day on 23 August.	<i>Cynigiodd y Cyng. Graham Evans bod y cyngor yn cefnogi'r cais; eiliwyd gan y Cyng. Jane Roche.</i> Cllr Graham Evans proposed that the council supports the application; this was seconded by Cllr Jane Roche.
16	Mr Ken Griffiths, Lleifior, Ferwig: <i>Derbyniad o'r gwahoddiad i wasanaethu fel Archwilydd Mewnol y cyngor dros gyfrifon 2016-17.</i> Acceptance of the council's invitation to serve as Internal Auditor for the 2016-17 council accounts.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
17	4CG Cymdeithas Cynnal/Cefnogi Cefn Gwlad: <i>Gwerthfawrogiad am gyfraniad y cyngor tuag at gynnal a chadw toiledau cyhoeddus yn y dref.</i> Acknowledgement of the council's donation towards maintaining and keeping open the toilets in town.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
18	<i>Sioe Dydd Sadwrn Barlys Aberteifi: Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres gyflwyno gwobrau ar y digwyddiad ar 29/4/17.</i> Cardigan Barley Saturday Show: An invitation to the Mayor and Mayoress to assist with the trophy presentation on 29/4/17	<i>Mae'r gwahoddiad wedi ei drosglwyddo i'r Maer.</i> The invitation has been forwarded to the Mayor.
19	Tai Ceredigion: <i>Cadarnhad o gyfarfod a drefnwyd gyda Mr Steve Jones nos Fawrth, 18 Gorffennaf.</i> Confirmation of meeting with Mr Steve Jones to discuss the Maesglas Play Area on 18/7/17 at the Sub-committees.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
20	<i>Poppit Surf Life Saving Club: Cais am gymorth ariannol / Application for financial aid.</i>	<i>Wedi ei drafod yn Is-bwyllgorau Grantiau mis Mawrth.</i> Discussed at the March Grants Sub-committee.
21	<i>Sioe Dydd Sadwrn Barlys / Cardigan Barley Saturday Show: Cais am gymorth ariannol / Application for financial aid.</i>	<i>Wedi ei drafod yn Is-bwyllgorau Grantiau mis Mawrth.</i> Discussed at the March Grants Sub-committee.
22	<i>Clwb Pêl-droed Aberteifi / Cardigan Football Club: Cais am gymorth ariannol / Application for financial aid.</i>	<i>Wedi ei drafod yn Is-bwyllgorau Grantiau mis Mawrth.</i> Discussed at the March Grants Sub-committee.
23	Papur Bro "Y Dwrgi" (Welsh newspaper): <i>Cais am gymorth ariannol / Application for financial aid.</i>	<i>Wedi ei drafod yn Is-bwyllgorau Grantiau mis Mawrth.</i> Discussed at the March Grants Sub-committee.
24	<i>Ymddiriedolaeth Adeiladau Cadwgan CBT: Cais am gymorth ariannol / Application for financial aid.</i>	<i>Wedi ei drafod yn Is-bwyllgorau Grantiau mis Mawrth.</i> Discussed at the March Grants Sub-committee.
25	W. J. Williams & Davies: <i>Gohebiaeth ynglŷn â phrydles Clwb Bowlio Aberteifi.</i> Correspondence regarding the Cardigan Bowls Club lease.	<i>Mae'r clerc wedi anfon argymhellion diweddaraf y cyngor at Mr Dyer ar 30/3/17.</i> The clerk has forwarded the council's latest observations to Mr Dyer on 30/3/17.
26	<i>Plannu coed yn ardal Netpwl: Cyfres o e-byst ynglŷn â phlannu'r coed a hefyd pryderon ynglŷn ag yswiriant y man chwarae newydd yno.</i> Tree planting in Netpool: Series of e-mails regarding the planting of trees and concerns regarding the insurance of the newly constructed play area.	<i>Gan fod cymaint o ddrwsych am berchenogaeth y safle a diffyg dogfennau, cytunwyd peidio symud ymlaen â'r prosiect.</i> As the ownership of the land is questionable and the lack of documented proof, it was agreed to postpone decision on the planting of trees.

27	<i>Adroddiad y Bachan Deche, mis Mawrth.</i> Handyperson's Report, March.	<i>I'w drafod tan eitem 12.</i> To be discussed under item 12.
----	--	---

<b>Bronwen Morgan:</b>	<i>Prif Weithredwr.</i> Chief Executive.
<b>Cathryn Morgan:</b>	<i>Cydlynnydd Teuluoedd yn Gyntaf</i> / Families First Coordinator
<b>Enfys James:</b>	<i>Swyddog Gweinyddol Gwasanaethau Ffordd o Fyw</i> / Administrative Officer Lifestyle Services
<b>Gari Jones:</b>	<i>Peiriannydd Cynorthwyol Strategaeth Trafnidiaeth</i> / Assistant Engineer Transport Strategy
<b>Marianne De Vries:</b>	<i>Adain Cau Ffyrdd</i> / Road Closures Section
<b>Paul Arnold:</b>	<i>Pennaeth y Gwasanaethau Bwrdeistrefol ac Amgylcheddol</i>
<b>Stephen Johnson:</b>	<i>Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol</i> / Head of Financial Service

## 11. Ceisiadau am gymorth ariannol: Argymhellion yr Is-bwyllgor Grantiau (tan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 adrannau 137, 142, 145)

**Grant applications:** Recommendations of the Grants Sub-committee (under sections 137, 142, 145 of the Local Government Act 1972)

1—Cymdeithas Gofal / The Care Society	£400
2—Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen	—
3—Bro Teifi Sheltered Tenants Association	£100
4—Cyfeillion Amgueddfa Ceredigion / Friends of Ceredigion Museum	—
5—Gŵyl Cerdd Dant Llandysul a'r Fro 2017	£100
6—RAY Ceredigion	£200
7—Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn	£200
8—Teenage Cancer Trust	—
9—Gŵyl Afon a Bwyd / River & Food Festival	£500
10—Clybiau Ffermwyr Ifainc Ceredigion YFCs	—
11—Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru Therapy Centre	—
12—Gŵyl Fawr Aberteifi 2017	£3,500
13—Gofal Mewn Galar / Cruse Bereavement Care	£200
14—Mount Zion Baptist Church Youth Drop-in Centre	£250
15—Gŵyl y Cynhaeaf	£300
16—Clwb Ceir Clasur Aberteifi / Cardigan Classic Car Club	£250
17—Opera Teifi	£750
18—Clwb Syrffio Poppit Sands Surf Lifesaving Club	£350
19—Dydd Sadwrn Barlys / Barley Saturday Committee	£750
20—Clwb Pêl-droed Aberteifi / Cardigan Football Club	£450
21—"Y Dwrgei" (Papur Bro Aberteifi / Local Welsh newspaper)	£500
22—Cadwgan (Castell Aberteifi / Cardigan Castle)	£2,000
23—Cronfa'r Maer / Mayor's Fund	£1,000

**Cynigiodd y Cyng. John Adams-Lewis bod argymhellion uchod yr Is-bwyllgor Rhoddion yn cael eu cymeradwyo; eiliwyd gan y Cyng. Dai Brabrook.**

Cllr John Adams-Lewis proposed that the above recommendations of the Grants Sub-committee be approved; this was seconded by Cllr Dai Brabrook.

**Cytunwyd trefnu noson i gyflwyno'r grantiau ar 20 Ebrill yn yr Ystafell Gynhadledd am 6.00 o'r gloch.**

It was agreed to organise the grant presentation evening on Thursday, 20 April in the Conference Room at 6.00pm

## 12. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol. Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations. Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 21 Mawrth.

Confirmation of 21 March Sub-committee Minutes.

**Cynigiodd y Cyng. Mark Cole bod cofnodion 21 Mawrth yn rhai cywir; eiliwyd gan y Cyng. Dai Brabrook.**

Cllr Mark Cole proposed that the minutes of 21 March be accepted as correct; seconded by Cllr Dai Brabrook.

**Materion yn codi** Matters arising:

**Tud. 1226 (Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Sir Ceredigion):** Mae gan y cyngor amheuan ynglŷn a'r argymhelliad i uno wardiau pentrefi Ferwig, Mwnt a Gwberrt gyda wardiau Aberteifi; rhagdybir y byddai uno wardiau gwledig a threfol yn gymhlethdod gweinyddol ac ymarferol.

**Tud. 1227 (Goleuadau Digwyddiadau):** Cytunwyd bod y baneri yn cael eu gosod i dderbyn Gŵyl Fawr Aberteifi ym mis Gorffennaf.

**Tud. 1227 (c):** Cytunodd y Cyng. Adams-Lewis drefnu bod y cwpwrdd yn Ystafell Radley yn cael ei gywiro.

Page 1226 (*Review of the Electoral Arrangements for the County of Ceredigion*): The council has reservations regarding the merging of Ferwig, Mwnt and Gwbart in the Penparc ward with Cardigan; it is foreseen that administrative and practical difficulties would be experienced by merging rural and urban wards.

Page 1227 (*Event Lights*): It was agreed to raise the bunting for Gŵyl Fawr Aberteifi in July.

Page 1227 (c): Cllr Adams-Lewis agreed to organise the repair of the cupboard in Ystafell Radley.

**Castell Aberteifi:** Rhagdybiwyd bod haf prysur o flaen y Castell. Yn dilyn llwyddiant rhaglen Sianel 4 "Restoration of the Year" (categori Georgaidd) gwelwyd cynnydd ym mhrysurdeb safle we'r Castell. Mae cynllun busnes cadarn wedi ei sefydlu ac o'r herwydd gwelir cynnydd yn nifer y staff.

**Menter Aberteifi:** Mae grant cynllun tair blynedd ar y gweill i adnewyddu'r farchnad gan geisio ariannu gosod lifft ar y safle. Awgrymwyd y dylid gofyn i'r bwrdd ystyried gosod bachau i hongian dillad gerllaw Ystafell Radley.

**Cymdeithas Aberteifi Society:** Mae'r gymdeithas hyd yn hyn yn ffynnu gyda siaradwyr diddorol. Cynhelir gwibdaith i Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth ar 22 Mai.

**Ysgol Uwchradd Aberteifi:** Cynhelir noson wobrwyo'r ysgol ar 5 Ebrill am 7.30yh.

**Ffrindiau'r Maes Sgrialu a Netpwl:** Cynhelir cyfarfod ar 8 Mai yng Ngorffwysfa'r Pysgotwr am 6.00yh.

*Cardigan Castle:* A busy summer is anticipated. Following the resounding success of the Channel 4 programme, "Restoration of the Year" (Georgian category), a considerable interest has been generated on the castle website with advance bookings. A solid business plan is now in place; accordingly, an increase in staff is anticipated.

*Menter Aberteifi:* A three-year project is afoot to improve the market with plans to include a lift on the site. It was suggested that the board should consider placing hooks for coats, etc. near Ystafell Radley.

*Cymdeithas Aberteifi Society:* The society is flourishing with notable speakers in attendance. A trip to the National Library of Wales, Aberystwyth is planned for 22 May.

*Ysgol Uwchradd Aberteifi:* The annual prize-giving evening will be held on 5 April at 7.30pm.

*Friends of the Skateboard Park and Netpool:* A meeting will be held at the Fisherman's Rest on 8 May at 6.00pm.

**13. Datganiad chwarterol y Maer ynglŷn â diogelwch y cadwyni.**

Quarterly statement by Mayor regarding safeguarding chains of office.

**Sicrhodd y Maer bod y ddwy gadwyn yn ddiogel.**

The Mayor confirmed that both chains were in safe custody.

**14. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.**

Any Other Business at the discretion of the Mayor.

(a) **Llifoleuadau Maes Radley Floodlights.**

**Cwynion oddi wrth y cyhoedd /** Complaints from the public: Y Cyng. / Cllr Catrin Miles.

**Awgrymwyd bod yr heddlu yn gosod camera symudol ar y safle er mwyn archwilio fandaliaeth yn yr ardal.**

It was suggested that the police might place a trail camera on the site to combat vandalism.

(b) **Cinio'r cyngor /** Council dinner.

**Awgrym gan y Cyng. T. Melfydd George.** Suggestion by Cllr T. Melfydd George.

**Cytunwyd bod y Maer, y Dirprwy Faer a'r clerwr yn trefnu cinio i aelodau'r cyngor presennol.**

It was agreed that the Mayor, Deputy Mayor and clerk organise a dinner for the present council members.

***Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 7.27yh***

*There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 7.27pm.*

Arwyddwyd/Signed ..... (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date .....